

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

Cofnodion pwyllgor gwaith 12 Mawrth 2019

Presennol
Cadeirydd – Cyng C Larsen

D L Jones, I C Thomas, R Thomas, C Williams, J W Parry, A Hopcyn

1. Ymddiheuriadau

E R Hughes , W T Owen, W R Owen

2. Datgan Buddiant Personol

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

4. Dilyn cyfarfod diwethaf - eitemau canlynol

i. Cyflogi unigolyn

Dyletswyddau posibl

- Codi sbwriel.
- Codi baw ci.
- Lladd chwyn / difa mwsogl ar balmentydd ac ati?
- Torri tyfiant yn ôl a thocio coed?
- Glanhau / cynnal a chadw llochesi bysus.
- Codi dail sydd wedi pylpio ac ati – yn arbennig ar lwybrau.
- Sicrhau bod biniau halen yn llawn / gwasgaru'r halen os oes angen.
- Glanhau / cynnal a chadw arwyddion ar gyrion y dref
- Unrhyw beth arall?

Materion cyflogaeth i'w hystyried

- Agwedd y Cyngor Sir
- Iechyd, diogelwch a lles – mae'n debyg y byddai'r unigolyn yn gweithio ar ei ben ei hun yn aml.

- Pa mor fforddiadwy ydi'r cynllun (mae modd arbed pres trwy beidio talu am lanhau strydoedd ychwanegol + trwy newid trefniadau yng Nghoed Helen).
- Trefn waith (awgrymu bod y dref yn cael ei rhannu yn unol a'r pump ward newydd a bod y gweithiwr yn treulio dau hanner diwrnod ym mhob ward).
- Sut i sicrhau hyblygrwydd o fewn y drefn arferol er mwyn i'r gweithiwr allu mynd ar ôl problemau penodol.
- Atebolrwydd y gweithiwr (clerc yn rheolwr llinell)
- Trefniadau rheoli perfformiad.
- Offer / cyfarpar / trafndiaeth ar gyfer y gweithiwr. (angen edrych i mewn i costau prynu van, ac os ydi hynny yn fwy cost effeithiol na talu a defnydd car personol)
- Angen cynnig cyflog byw ac osgoi trefniant oriau sero.
- Beth fyddai'r gweithiwr yn ei wneud mewn tywydd garw ac ati – oes lle i wneud gwaith yn yr Institiwt?

Penderfynwyd:

- 1) Cyng Cai Larsen a'r clerc i drafod efo swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn a'r hyn sy'n dderbyniol iddyn nhw.
- 2) Cyngor llawn Ebrill 2019 i gytuno mewn egwyddor i gyflogi gweithiwr llawn amser.
- 3) Y mater i'w drosglwyddo i Bwyllgor Personél y Cyngor i roi swydd ddisgrifiad a threfniadau cyflogi mewn lle. (angen hawl i basio i'r pwyllgor gwaith ar ôl darfod)
- 4) Y swydd ddisgrifiad i'w thrafod gan y PG ac addasiadau i'w gwneud yn ôl y gofyn. (angen hawl i weithredu)
- 5) Swydd i'w hysbysebu cyn diwedd Mai 2019.
- 6) Cynllun newydd i'w gychwyn ddechrau ym Mehefin 2019.

ii. Coed Helen

Mae'r cynllun wedi cael ei drafod am gyfnod – ac mae'n bryd i ni roi rhywbeth pendant mewn lle – efo'r bwriad o gytuno mewn egwyddor o symud ymlaen.

Gwariant

- Ar hyn o bryd mae'r gwariant ar y parc yn £23,564. (heb staff)
- Ceir incwm / consesiynau o £5,780 (fflat, hufen ia ac ati). – felly ceir gwahaniaeth o £17,784

- Gellir cau y bwch yma trwy gynyddu incwm / lleihau gwariant neu gwneud y ddau. Mae hyn yn ddigon posibl.

Toriadau posibl mewn taliadau:

Gwaredu Sbwriel	1220	Gallai'r CT wneud hyn yn llawn neu'n rhannol.
Trydan	2500	Problem efo'r trydan wedi ei datrys Mae'r gwariant tros 15,000 ar hyn o
Cynnal Tir	5000	bryd
Cyfanswm	8720	

Incwm ychwanegol posib

Consesiwn Hufen Ia	500
Parcio (£30 y diwrnod)	11000
Cyfanswm	11500

**Cyfanswm Incwm +
Toriadau** **20220**

Roedd cryn trafodaeth am yr elfen parcio , gan drafod y posib o codi rhwng Dydd Llun i Dydd Gwener yn unig, roedd nifer yn bryderus , ond gan mai megis trafod yda ni ar hyn o bryd , cadw'r syniad i mewn

Risgiau posibl / Pethau i'w cadw mewn cof:

- Costau ychwanegol – amcangyfrif cynnal a chadw yn isel ar hyn o bryd oherwydd gostyngiad mewn fandaliaeth.
- Buddsoddi yn y dyfodol – ‘dydi’r offer sydd yn y parc ar hyn o bryd ddim am barhau am byth. Os ydym yn mynd ymlaen a hyn byddwn angen cynllun ariannol ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Byddai'n gyfrifoldeb ar y cyngor i ddatblygu'r parc.
- Angen dealltwriaeth ynglŷn ag yswiriant.
- Angen trefniadau archwilio / iechyd a diogelwch. (angen atebion i pa mor aml mae toiledau cyhoeddus i fod i'w glanhau)
- Bydd angen adnewyddu y dodrefn o bryd i'w gilydd.

- Beth ydi hyd a lled y gwaith sydd angen ei wneud yn rheolaidd yn y parc.
- Pa mor hawdd ydi hi i ddefnyddio gweithiwr y Cyngor i wneud y gwaith codi sbwriel ac ati.
- TUPE yn bodoli gan bod unigolyn dal yn cael ei chyflogi ar y safle

Pethau y gellid gofyn amdanynt gan CG:

- Llinellau melyn ychwanegol ar y Foryd.
- Help i brynu / gosod peiriant parcio
- Cynnwys y parc yng nghynllun yswiriant y Cyngor (toedd y clerc ddim yn meddwl y fyddai hyn yn bosib)
- Rhoi cymorth / trefnu archwiliadau diogelwch
- Edrych ar ôl trefniadau cyfreithiol y trosglwyddiad
- Adnewyddu dodrefn ac ati cyn i ni gymryd cyfrifoldeb am y parc

Penderfynwyd

- 1) symud ymlaen i argymhell bod y Cyngor yn derbyn trosglwyddiad Coed Helen mewn egwyddor.
- 2) Cyng Cai Larsen a'r clerc i drafod yr uchod efo Cyngor Gwynedd.
- 3) Yn ddibynnol ar ddeiliant y trafodaethau penderfyniad i'w wneud i gymryd cyfrifoldeb am Barc Coed Helen o fis Ebrill 2020.
- 4) Os ydi'r Cyngor yn cytuno ,Cyng Cai Larsen a'r clerc i negyddu efo'r Cyngor Gwynedd a dod o hyd i ddyfynbrisiau erbyn cyfarfod o'r cyngor llawn i gadarnhau (neu wrthod) y cynllun ym mis Hydref 2019.
- 5) Gweithredu'r newid o Ebrill 2020.

iii) Coed – ni chafwyd trafodaeth ar y pwnc yma , ai symud i'r pwyllgor nesaf

Gorffennodd y cyfarfod am 6.13

Arwyddwyd Dyddiad

